**Memorandwm i Adroddiad Blynyddol Pwyllgor y T, Cynulliad Cenedlaethol Cymru gan ei Gadeirydd am y cyfnod Hydref 1999 i Fedi 2000**

Mae adroddiad Pwyllgor y T yn crynhoi ei weithgaredd dros y 12 mis diwethaf. Yn ddi-os, mae’r Pwyllgor wedi chwarae rôl bwysig yn y gwaith o lunio a dylanwadu ar y gwasanaethau a ddarperir i Aelodau’r Cynulliad, yn bennaf drwy Swyddfa’r Llywydd; datblygiad prosiectau megis y Pierhead; fframwaith y canllawiau yr ydym yn gweithio oddi mewn iddynt a nifer o faterion mewnol a ‘chadw t‘ eraill. Er hynny mae’n deg dweud ei bod hi’n anodd priodoli llwyddiannau penodol i Bwyllgor y T‘n unig.

Fel rhan o’r cynnig i greu Swyddfa’r Llywydd mwy annibynnol, cytunwyd y byddai Pwyllgor y T yn cael ei wneud yn bwyllgor ffurfiol statudol o fewn y Rheolau Sefydlog. Rhoi cyngor yw ei rôl o hyd ond mae ganddo gylch gwaith ehangach sy’n cwmpasu’r holl eitemau yn y cylch gwaith presennol yn ogystal â ffioedd a lwfansau Aelodau a chyllideb Swyddfa’r Llywydd. Bydd Pwyllgor y T yn cael ei annog i gynnig ei sylwadau ynghylch yr holl faterion hyn i’r Clerc, y Llywydd neu i eraill. Bydd hefyd yn gyfrifol am archwilio cynigion a gaiff eu cynnig gan y Clerc ar ran Aelodau am newid gwasanaethau neu am gyflwyno gwasanaethau newydd, dyrannu arian, etc a monitro perfformiad Swyddfa’r Llywydd.

Er mwyn gwneud Swyddfa’r Llywydd yn fwy atebol ac agored i Aelodau cytunwyd y bydd un aelod o Bwyllgor y T yn ateb cwestiynau i’w hateb ar lafar mewn sesiynau rheolaidd (bob 4 wythnos, mwy na thebyg). Pwyllgor y T fydd yn enwebu’r aelod hwnnw, nid o anghenraid y Cadeirydd neu’r un aelod ar bob achlysur.

Rwy’n gobeithio y bydd Aelodau’r Cynulliad yn cefnogi parhad a datblygiad y Pwyllgor pwysig hwn a hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i’r rhai hynny a gymerodd ran yn ystod y 12 mis diwethaf. Mae wedi bod yn flwyddyn ddiddorol ac rwy’n ddiolchgar i’m cydweithwyr ar y Pwyllgor am eu cefnogaeth.

**JANE DAVIDSON**

Sylwer: Cymeradwyodd Aelodau’r Cynulliad y newidiadau a amlinellwyd uchod ddechrau mis Hydref fel rhan o becyn o fesurau sy’n deillio o’r prosiect i greu Swyddfa’r Llywydd mwy annibynnol.

# ADRODDIAD BLYNYDDOL

# PWYLLGOR Y T,

# CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

# Mis Hydref 1999 – Mis Medi 2000

**PWYLLGOR Y T**

**ADRODDIAD I'R CYNULLIAD**

**1. Rhagarweiniad**

1.1 Sefydlwyd Pwyllgor y T gan benderfyniad y Cynulliad ar 13 Gorffennaf 1999, o dan Reol Sefydlog 8.1, sy'n caniatáu i'r Cynulliad sefydlu pwyllgor, yn ychwanegol at y pwyllgorau hynny y darperir ar eu cyfer gan y Ddeddf neu mewn Rheolau Sefydlog. Fe'i sefydlwyd am 1 flwyddyn, i barhau mewn bodolaeth hyd ddyddiad pen-blwydd ei gyfarfod cyntaf. Mae'n ofynnol ar i'r Pwyllgor adrodd i'r Cynulliad o leiaf unwaith y flwyddyn.

1.2 Prif ddiben y Pwyllgor yw darparu fforwm fel y gall Aelodau roi cyngor i'r Llywydd ar yr

ystod eang o faterion a gwasanaethau sy’n ymwneud â’r t ac a ddarperir ar gyfer Aelodau’r Cynulliad a’r cyhoedd, yn bennaf drwy Swyddfa’r Llywydd. Pwyllgor ymgynghorol yw hwn, ac nid oes ganddo unrhyw bwerau gweithredol.

1.3 Jane Davidson, y Dirprwy Lywydd, yw Cadeirydd y Pwyllgor. Yr aelodau eraill yw Janice Gregory, Peter Black, Brian Hancock a Glyn Davies.

1.4 Yn ystod ei flwyddyn gyntaf, cyfarfu’r Pwyllgor ar 5 achlysur, sef tua unwaith bob 8 i 10 wythnos.

**2. Cylch Gwaith y Pwyllgor**

2.1 Roedd y Penderfyniad a basiwyd ym mis Gorffennaf yn nodi cylch gwaith Pwyllgor y T, yn ogystal â’r gofynion o ran aelodaeth, ei gylch gorchwyl, ei gyfarfodydd a chyfnod ei barhad. Ceir copi o’r Penderfyniad fel atodiad i’r adroddiad hwn.

**3. Blaenoriaethau’r Pwyllgor**

3.1 Gweithiodd y Pwyllgor i agenda safonol. Cytunwyd yn gynnar y byddai ei flaenoriaethau fel a ganlyn:

- Cofnodion

- Materion a Gododd

- Adroddiad ar Berfformiad

- Materion yr Adeilad

- Gwasanaethau’r Llywydd

  - Y Llyfrgell
  - Cyfieithu
  - Darlledu
  - Y Cofnod
  - Ysgrifenyddiaethau
  - Gwybodaeth i’r Cyhoedd

- Materion TG ac offer technegol

- Cyfleusterau Arlwyo

- Deunydd Ysgrifennu

- Gwasanaethau tâl a threuliau

- Unrhyw fusnes arall

**4. Y Prif Faterion**

4.1 Yn ystod y flwyddyn, ystyriodd y pwyllgor faterion mor amrywiol â chanllawiau ar ddefnyddio deunydd ysgrifennu ac adnoddau, a darparu peiriant arian o fewn adeilad y Cynulliad ym Mae Caerdydd. Dyma rai o'r prif faterion a drafodwyd:

Safonau Perfformiad

4.2 Un o swyddogaethau pwysig Pwyllgor y T yw cynghori ar farn Aelodau yngln ag effeithlonrwydd ac ansawdd y gwasanaethau a ddarperir gan Swyddfa'r Llywydd, ac yn gyffredinol ar gyfer Aelodau'r Cynulliad a'r cyhoedd.

4.3 Mae'r Pwyllgor wedi monitro perfformiad pob adran yn Swyddfa'r Llywydd, trwy archwilio dangosyddion perfformiad y Cynllun Corfforaethol. Yn ogystal â hyn, rhoddodd gyngor ar sut y gellid gwella'r dangosyddion er mwyn darparu'r ffynhonnell orau o wybodaeth ystadegol ar berfformiad.

Arolwg o Aelodau a'u Staff Cymorth

4.4 Yn ychwanegol at hyn, cynhaliwyd arolwg er mwyn sicrhau bod y gwasanaethau a ddarperir gan Swyddfa'r Llywydd yn diwallu anghenion yr Aelodau a'u staff. Gwahoddwyd Aelodau Pwyllgor y T i roi sylwadau ar yr arolwg arfaethedig, a rhoi cyngor yngln â'i gynnwys a'i strwythur. Nododd Aelodau'r Pwyllgor yr ymatebion a dderbyniwyd a chymeradwyo cynllun gweithredu. Cynigir y bydd Pwyllgor y T yn parhau i fonitro'r cynllun hwn.

Polisi Ysmygu

4.5 Bu'r Pwyllgor yn cymryd rhan weithgar yn y broses o ddiwygio'r polisi ysmygu yn Adeilad y Cynulliad Ym Mae Caerdydd, a chreu cyfleuster ysmygu. Yn dilyn arolwg o staff ac Aelodau yn y Bae, gwnaed trefniadau i ddarparu ystafell ar gyfer ysmygwyr ym mis Chwefror. Yn ddiweddar, adnewyddwyd ac ail-agorwyd yr ystafell hon.

Cymorth TG

4.6 Mae'r Pwyllgor wedi ystyried y trefniadau cymotrh ar gyfer systemau TG Aelodau a'u staff,

a chynigiodd nifer o welliannau mewn ymgynghoriad â’r Is-adran Systemau Gwybodaeth Busnes.

Pierhead

4.7 Mae Aelodau’r Pwyllgor wedi chwarae rôl yn y broses o ystyried y cynigion ar gyfer datblygu Adeilad y Pierhead fel y Ganolfan Addysg ac Ymwelwyr newydd.

4.8 Ymgynghorwyd â’r Pwyllgor ar y cynigion yn ystod cyfnod cynnar y prosiect, ac fe’i gwahoddwyd i gyflwyno barn cydweithwyr. Yn ei gyfarfod ym mis Mehefin, rhoddwyd cyflwyniad i’r Pwyllgor ar ddyluniad mewnol y datblygiad, a esgorodd ar drafodaeth ddefnyddiol.

Canllawiau

4.9 Ymgynghorodd y Llywydd â’r Pwyllgor ar ystod eang o Ganllawiau drafft y Cynulliad, gan gynnwys canllawiau TG, "Cadw T" a chanllawiau ar ddefnyddio Ystafelloedd Cynadledda/ Cyfarfod a chyfleusterau fideo-gynadledda. Roedd gan y Pwyllgor ran bwysig i’w chwarae wrth adolygu’r Canllawiau ar ddefnyddio deunydd ysgrifennu ac adnoddau, gan gynnwys y defnydd priodol o gyfleusterau.

**5. Casgliad**

5.1 O dan ei Gylch Gorchwyl, bydd y Pwyllgor yn peidio â bod ar 5 Hydref 2000, sef pen-blwydd cyntaf ei gyfarfod cychwynnol, os na roddir achos dros ei barhau. Hysbyswyd y Pwyllgor bod cynigion yn cael eu paratoi i sefydlu Pwyllgor y T o fewn y Rheolau Sefydlog.

5.2 Mae’r Cadeirydd ac aelodau’r pwyllgor wedi adolygu’r ffordd y gweithiodd y Pwyllgor. Daethant i’r casgliad bod y Pwyllgor wedi cyflawni deialog adeiladol yn ei flwyddyn gyntaf, ac wedi mynd i’r afael â nifer o faterion pwysig a dylanwadu arnynt, ond ei bod yn briodol sefydlu pwyllgor diwygiedig gyda rôl gryfach.

**PWYLLGOR Y T**

**MEDI 2000**

ATODIAD

Cylch Gorchwyl

Bydd Pwyllgor y T yn:

- cynghori'r Llywydd ar farn Aelodau yngln ag effeithlonrwydd ac ansawdd y gwasanaethau a ddarperir drwy Swyddfa'r Llywydd ar gyfer Aelodau'r Cynulliad a'r cyhoedd yn gyffredinol;
- ystyried adroddiadau monitro a gyflwynir iddo ynghylch y fath wasanaethau;
- rhoi'r cyngor sydd orau yn ei farn ef i'r Cynulliad ar ansawdd yr adeilad, y gwasanaethau a'r offer a ddarperir i Aelodau, a'r gwasanaethau a ddarperir i'r cyhoedd;
- adrodd i'r Cynulliad o leiaf unwaith y flwyddyn

Aelodaeth

Bydd y Cynulliad yn ethol un Aelod o bob grp gwleidyddol sydd yn y Cynulliad i'r Pwyllgor, ynghyd ag un Aelod arall i'w gadeirio. Os etholir Aelod heblaw am y Dirprwy Lywydd yn Gadeirydd y Pwyllgor, bydd gan y Dirprwy Lywydd hawl i fynychu cyfarfodydd y Pwyllgor.

Gall Aelod o'r Pwyllgor, ar ôl rhoi rhybudd o flaen llaw i'r Cadeirydd, gael ei gynrychioli yng nghyfarfod y Pwyllgor gan aelod arall o'r un grp gwleidyddol a gafodd ei enwi o flaen llaw. Gall y cynrychiolydd a enwebir gymryd rhan yng nghyfarfod y Pwyllgor ym mhob agwedd fel petai'n aelod o'r Pwyllgor hwnnw.

Os etholir y Dirprwy Lywydd yn Gadeirydd y Pwyllgor, ond na ellir osgoi y bydd yn absennol o un o'r cyfarfodydd, bydd y Dirprwy Lywydd yn enwebu Trefnydd y Cynulliad, neu aelod o Banel Cadeiryddion y Pwyllgorau Pwnc, i gadeirio'r cyfarfod, neu os na ddigwydd hynny, bydd y Llywydd yn enwebu unigolyn o'r panel. Lle bo unrhyw aelod nad yw'n aelod o'r Pwyllgor yn cadeirio'r cyfarfod yn sgil cael ei enwebu yn y modd hwn, caiff ei drin neu ei thrin ym mhob agwedd yn y cyfarfod fel aelod o'r Pwyllgor.

Cyfarfodydd

Bydd y Pwyllgor yn cwrdd o leiaf 3 gwaith bob blwyddyn. Bydd yn cwrdd yn breifat. Ni fydd y darpariaethau yn Rheol Sefydlog 8 o ran cworymau ar gyfer pwyllgorau neu bleidleisio mewn pwyllgorau yn gymwys ar gyfer y Pwyllgor hwn.

Parhad

Bydd y Pwyllgor yn parhau i fodoli hyd ddiwrnod pen-blwydd cyntaf ei gyfarfod cychwynnol.